POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**YSTYRIED ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4) (d) o Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

## Adolygiad o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Ystyriodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Adroddiad Blynyddol blaenorol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2020/2021 yn ei gyfarfod ar 20 Medi, 2021.

Yr adroddiad hwn oedd adroddiad blynyddol olaf Mr Arfon Jones fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, yn dilyn ei benderfyniad i beidio â cheisio cael ei ail-ethol. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cyffredinol yn erbyn blaenoriaethau strategol Cynllun yr Heddlu a Throsedd ac er bod pwys cyfartal wedi’i roi i bob un o’r pum blaenoriaeth strategol, amlygwyd y thema gyffredinol ‘lleihau camfanteisio’n droseddol ar bobl ddiamddiffyn’ trwy gydol yr adroddiad.

Er bod yr adroddiad yn myfyrio ar amser Mr Jones fel Comisiynydd a’i gyflawniadau a’i lwyddiannau, roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r ymateb i’r pandemig a’r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Ymateb Covid-19. Byddai’r gwersi a ddysgwyd o’r pandemig yn parhau i wella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb Heddlu Gogledd Cymru wrth i gyfyngiadau COVID 19 lacio.

Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o’r canlynol hefyd:

- Gweithio mewn partneriaethau effeithiol – roedd yr adran hon o’r adroddiad yn amlygu’r newidiadau cadarnhaol i’r ffordd y mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn darparu cymorth i ddioddefwyr trais a chamdriniaeth domestig. O 1 Ebrill 2020 cyflwynwyd gwasanaeth mwy cyson a chydlynol, a gynigwyd ym mhob un o ardaloedd y chwech awdurdod lleol ac a weithredwyd ar sail 24/7, gydag Ymgynghorwyr yn gweithio ar sail rota ranbarthol i weithio gyda’r nos ac ar benwythnosau.

- Gwneud gwahaniaeth – roedd y adran hon o'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau o rywfaint o waith a chyflawniadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid.
- Cyflawni rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r cyfrifoldebau craidd.
- Blwyddyn o ymgysylltu – er bod y cyfleoedd i ymgysylltu wedi bod yn eithriadol o gyfyng dros y 12 mis diwethaf, mae mwy o ffocws wedi bod ar ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein.
- Adroddiad Cynnydd Blaenoriaethau Strategol Heddlu a Throsedd 2020/2021
- Crynodeb o Ganlyniadau – mesurwyd perfformiad trwy gymharu 2020/2021 a'r flwyddyn flaenorol, er mwyn nodi meysydd pryder, sy'n cynorthwyo Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i graffu ar y Prif Gwnstabl a'i wneud yn atebol am gyflawni Cynllun yr Heddlu a Throsedd.
- Cyllid ac Arian
- Comisiynu – mae'r adran hon yn rhoi manylion y cyllid a ddosbarthwyd i sefydliadau ar gyfer 2020/2021.

Cydnabuwyd bod drafft o'r Adroddiad Blynyddol wedi'i rannu gyda'r Panel eisoes er mwyn cael arsylliadau a sylwadau. Teimlai'r Panel bod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun yr Heddlu a Throsedd.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2020/2021.**